

YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU LLEOL) (CYMRU) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 17 Medi 2020.

Pwyntiau craffu technegol:

Pwynt 1: datganiad sy'n ofynnol o dan adran 45R(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi nad yw'r Rheoliadau yn cynnwys y datganiad sy'n ofynnol gan adran 45R(2) o Ddeddf 1984.
3. Mae Gweinidogion Cymru wedi dirymu'r Rheoliadau a'u disodli¹. Mae hyn oherwydd y methiant i gofnodi'n briodol ddatganiad Gweinidogion Cymru bod y Rheoliadau yn rhai brys, yn unol ag adran 45R(2) o Ddeddf 1984. Rydym yn ddiolchgar am Adroddiad y Pwyllgor ar y pwynt hwn.

Pwyntiau 2 a 3: cyfeiriad yn rheoliadau 2(g) ac 16(9)

4. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod y croesyfeiriad yn nhestun Saesneg rheoliad 2(g) yn cyfeirio at reoliad 7(1) yn lle 7(2), a bod y croesyfeiriad yn nhestun Saesneg rheoliad 16(9) yn cyfeirio at baragraff (9) yn lle paragraff (8).
5. Ymddengys fod y gwallau hyn wedi codi o broblemau fformatio'r templed pan grëwyd y fersiwn pdf o'r ddogfen Word a lofnodwyd. Roedd yr offeryn fel y'i gwnaed yn gywir. Byddwn yn codi hyn gyda'r Archifau Gwladol fel rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol, ond gan fod y Rheoliadau penodol hyn wedi eu dirymu a'u disodli bellach, ni chymerir unrhyw gamau pellach (er enghraifft, ceisio slip cywiro) yn hyn o beth.

Pwyntiau craffu ar rinweddau:

Pwynt 4: canllawiau

6. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi nifer o faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau a fyddai'n elwa ar ganllawiau pellach, neu ddiweddarau'r canllawiau presennol.
7. Mae swyddogion iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) i ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer defnyddio'r pwerau newydd. Caiff y gweithdrefnau eu cyflwyno fel dogfen ganllawiau maes o law.

Pwynt 5: personau sy'n berchen ar fangre ac yn ei meddiannu, a'r rheini sy'n gyfrifol am fangre

¹ Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 225)).

8. Mae'r Adroddiad drafft yn ceisio deall a oes gwahaniaeth yn y ffordd y caiff hysbysiadau eu trin ac, os felly, pam y mae gwahaniaeth o'r fath yn ofynnol.
9. Mewn cysylltiad â chyfarwyddydau mangreoedd a chyfarwyddydau digwyddiadau, dim ond yn rheoliad 11 y mae'r ymadrodd "fel arall yn gyfrifol am y fangre" yn ymddangos. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r cam gweithdrefnol o roi'r cyfarwyddyd gael ei gwblhau pan fo'n ymddangos i'r person sy'n rhoi'r cyfarwyddyd fod rhywun yn y fangre sy'n gyfrifol am y fangre honno ar adeg rhoi'r cyfarwyddyd ond nad y perchennog na'r meddiannydd yw'r person hwnnw o bosibl. Er hynny, ystyrir ei bod yn briodol y dylai camau i roi rhybudd ymlaen llaw a hawliau apelio mewn cysylltiad â'r mathau hynny o gyfarwyddydau 'gael eu hanelu at y rheini a chanddynt fuddiant clir yn y cyfarwyddyd (h.y. personau sy'n cynnal busnesau yn y fangre o dan sylw, y rheini sy'n trefnu digwyddiad y mae cyfarwyddyd digwyddiad wedi ei anelu ato neu berchennog neu feddiannydd y fangre y mae'r naill fath o gyfarwyddyd neu'r llall yn ymwneud â hi).
10. Mae cyfarwyddydau mannau cyhoeddus yn gymwys yn fwy cyffredinol i unrhyw dir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo. Felly, ymddengys ei bod yn briodol bod categori ehangach o bersonau a ddylai gael rhybudd ymlaen llaw (pan fo'n rhesymol ymarferol) ac a gaiff apelio yn erbyn cyfarwyddyd sy'n gymwys yn gyffredinol i fan a all gynnwys nifer o fangreoedd.

Pwynt 6: gwall yn y Memorandwm Esboniadol

11. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod y term "swyddog polisi"/"policy officer" wedi ei ddefnyddio yn lle "swyddog heddlu"/ "police officer".
12. Mae'r Llywodraeth yn cytuno mai camgymeriad oedd hyn, ond yn cynnig na chymerir unrhyw gamau pellach gan fod y Rheoliadau hyn wedi eu dirymu a'u disodli.